



Datganiad Polisi Preifatrwydd

O bwy y mae ACO yn casglu data, a pham?

Mae ACO yn casglu data gan ddysgwyr sy'n dymuno ymuno â'u rhaglenni dysgu, dysgwyr ar eu rhaglenni astudio, cyflogwyr a staff, i'w helpu i ddarparu gwasanaethau hyfforddi ac i ymateb ymholiadau.

Ni fydd ACO yn datgelu unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei rhoi 'yn gyfrinachol' i ni, i unrhyw un arall heb eich caniatâd, ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle mae angen datgelu yn ôl y gyfraith, neu os oes rheswm da gennym i gredu os na fyddant yn rhannu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi rhywun arall mewn perygl. Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata sy'n ymwneud â phlentyn (o dan 13) heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad y plentyn dan sylw.

Pwy yw'r Rheolydd Data?

ACO Training Limited yw'r Rheolwr Data, a mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a Rheoliad Cyffredinol Data Diogelu Data 2018 (GDPR). Mae ACO yn cydymffurfio trwy gadw data personol yn ddiogel a chyfrinachol gan ddefnyddio mesurau megis cyfrineiriau, cloeon, mynediad cyfyngedig a rheoledig i wybodaeth yn unig. Caiff data ei wirio am gywirdeb ac i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn cael ei storio am yr amser a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Gall ACO brosesu gwybodaeth yn unol ag Erthygl 6 (1) (a), (b) a (e) GDPR yn benodol lle:

- maint yn prosesu gyda chydysyniad pwnc y data; neu
- mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn ACO fel Rheolwr Data.

Pam mae ACO angen y data hwn?

Er mwyn i ACO ddarparu rhai o'i wasanaethau hyfforddi, mae angen inni gasglu a defnyddio gwybodaeth personol briodol. Gellir casglu hyn ar bapur neu ar-lein, dros y ffôn, drwy e-bost, neu drwy ddefnyddio lluniau fideo gan gynnwys delweddau ffotograffig a digidol, neu yn personol gan aelod o staff ACO.

Mae enghreifftiau o ACO sy'n defnyddio data yn cynnwys:

- a) Darparu'r gwasanaeth hyfforddi a ofynnwyd gennych a chyfathrebu â chi.
- b) Cysylltu ag unigolion, yn gyfrinachol, sy'n datgan anabledd i drafod cefnogaeth.
- c) Darparu adroddiadau cynnydd / presenoldeb i gyflogwyr (ac eithrio perthnasau).
- ch) Darparu gwybodaeth i sefydliadau addysg a chyflogwyr, fel arfer gyda chydysyniad.
- d) Hyrwyddo Hyfforddiant ACO ond gyda chydysyniad y dysgwr os yw'n cael ei adnabod yn bersonol.
- dd) Er mwyn cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau allanol, dyfarniadau a chystadlaethau, fel arfer gyda chydysyniad y dysgwr.
- e) Cyflenwi manylion personol ac ariannol er enghraifft ar gyfer talu lwfansau dysgu neu daliadau tebyg fel teithio.
- f) Datgelu gwybodaeth i bartïon allanol at ddibenion diogelu a dyletswydd gofal, er enghraifft i ymarferwyr meddygol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
- ff) I gofrestru gyda'r Cyngor Sgiliau Sector priodol er mwyn gwneud cais am y dystysgrif gwblhau prentisiaeth ar ran dysgwr.
- g) Galluogi gwiriadau DBS i gael eu cynnal ar staff gyda'r gwasanaeth datgelu a gwahardd ac i gofrestru staff gyda'r EWC (Cyngor Gweithlu Addysg).
- h) Sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac i atal a chanfod twyll neu droseddau.
- i) Caniatáu dadansoddiad ystadegol o ddata fel y gallwn gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau.

Gyda phwy y mae ACO yn rhannu'r data?

Efallai y bydd yn rhaid i ACO rannu neu gadarnhau gwybodaeth bersonol gyda phartïon eraill; os bydd angen inni wneud hyn, byddwn yn ei gwneud yn glir i chi ar ffurflen, llythyr neu e-bost a gwblhewch i ddarparu'ch gwybodaeth.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth yn unig pan fydd yn deg ac yn gyfreithlon i ni wneud hynny. Enghreifftiau o bwy y gallwn ni rannu data gyda Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig ar waith neu Gyrff Dyfarnu i sicrhau y gall pobl gael tystysgrifau ar gyfer cymwysterau.

Ni chaiff eich gwybodaeth ei drosglwyddo i sefydliadau allanol i ACO at ddibenion marchnata neu werthu neu ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol. Ni fydd ACO yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd partïon, heblaw'r rhai sydd naill ai'n prosesu gwybodaeth ar ein rhan, neu oherwydd gofyniad cyfreithiol.

Gall ACO ddefnyddio negeseuon e-bost a dderbyniwyd gennych i gadw cofnod o'ch cyswllt a'ch cyfeiriad e-bost. Am resymau diogelwch, ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol amdanoch chi mewn unrhyw e-bost a anfonwn atoch, oni bai eich bod yn cydsynio i hyn.

A allaf gael mynediad at y data a gedwir?

Mae gennych yr hawl i gael mynediad at eich data personol a gedwir gan ACO, yr hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, yr hawl i unioni neu ddileu neu gyfyngu ac i borthio gwybodaeth bersonol a'r hawl i dynnu caniatâd yn ôl.

Gallwch wneud ceisiadau ynglŷn â gwybodaeth **ar lafar neu yn ysgrifenedig**, trwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar admin@aco-training.co.uk neu yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Diogelu Data, ACO Training Limited, Llawr 1af, 11 Stryd y Coleg, Abertawe SA1 5AF .

Bydd ACO yn darparu copi o'r wybodaeth yn rhad ac am ddim, oni bai fod cais yn ddi-sail, yn ormodol, yn ailadroddus neu am ragor o gopïau o'r un wybodaeth (a ddarparwyd yn flaenorol) - yn yr achos hwnnw byddai tâl rhesymol yn cael ei ddefnyddio.

Bydd ACO yn darparu gwybodaeth yn ddi-oed ac o fewn 28 diwrnod o leiaf. (Os yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdano yn gymhleth neu ar gyfer nifer o geisiadau, gallai hyn gymryd hyd at ddau fis - os yw hyn yn wir, fe ddywedir wrthyhch). Bydd angen i ACO wirio pwy yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais, gan ddefnyddio "modd rhesymol". Os gwneir y cais yn electronig, bydd yr ymateb gwybodaeth yn cael ei ddarparu'n electronig mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin. Pe na bai unigolyn yn fodlon ar eu hymateb, gallant wneud cais i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), 2il lawr, Churchill House, Churchill Way, Caerdydd CF10 2HH neu e-bost: wales@ico.org.uk